BWRDD DIOGELU PLANT LLEOL WRECSAM
WREXHAM LOCAL SAFEGUARDING CHILDREN BOARD

AMDDIFFYN PLANT

Rhoi gwybod am bryderon am gamdriniaeth

Cyhoeddwyd gan Bwrdd Diogelu Plant Lleol Wrecsam

Os dymunwch dderbyn gwybodaeth mewn iaith neu ffurf arall, cofiwch ofyn.

Jeżeli chcieliby Państwo uzyskać informacje w innym języku lub w innym formacie, prosimy dać nam znać.

Se deseja obter informação noutro idioma ou formato, diga-nos.

إذا أردت المعلومات بلغة أخرى أو بطريقة أخرى، نرجو أن تطلب ذلك منا.

যদি আপনি এই ডকুমেন্ট অন্য ভাষায় বা ফরমেটে চান, তাহলে দয়া করে আমাদেরকে বলুন।

اگر این اطلاعات را به زبانی دیگر و یا در فرمتی دیگر میخواهید لطفا از ما درخواست کنید

यदि आपको सूचना किसी अन्य भाषा या अन्य रूप में चाहिये तो कृपया हमसे कहे

ئەگەر زانیاریت بە زمانیکی کە یا بە فۆرمیکی کە دەوی تکایە داوامان لی بکە

اگر آپ کو معلومات کسی دیگر زبان یا دیگر شکل میں درکار ہوں تو برائے مہربانی ہم سے پوچھئے۔

Cam-drin plant – beth allwch CHI ei wneud?

Gall unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc hyd at 18 oed gael ei gam-drin ar unrhyw adeg. Gall plant gael eu cam-drin gan unrhyw un - oedolion neu blant eraill. Mae plant ag anableddau'n fwy agored i niwed.

Beth yw cam-drin plant?

Mae iddo sawl ffurf, gan gynnwys:

- Camdriniaeth gorfforol

Pan fydd pobl eraill yn brifo neu'n anafu plant, er enghraifft trwy eu taro, eu hysgwyd neu eu gwasgu.

- Camdriniaeth rywiol

Pan fydd plant yn cael eu defnyddio gan eraill i fodloni eu hanghenion rhywiol eu hunain. Gallai hyn gynnwys gweithgarwch rhywiol gyda'r plentyn neu dangos deunyddiau pornograffig i blant ar fideos neu'r rhyngrwyd.

- Camdriniaeth emosiynol

Pan na fydd plant yn cael anwyldeb na chariad yn gyson. Bydd plant yn dioddef os bydd pobl yn gweiddi arnynt yn gyson, yn gwneud iddynt deimlo'n dwp, yn eu gwrthod neu'n eu defnyddio fel bwch dihangol neu os byddant yn byw mewn amgylchedd treisiol.

- Esgeulustod

Pan nad oes unrhyw un yn bodloni anghenion sylfaenol y plentyn i gael bwyd, cynhesrwydd, amddiffyniad, symbyliad, addysg a gofal, gan gynnwys gofal iechyd.

Sut allaf ddweud a yw plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso?

Efallai bod gennych bryderon am y ffordd yr ydych yn gweld plentyn yn cael ei drin neu efallai y byddwch yn sylwi ar

arwyddion bod y plentyn yn cael ei niweidio. Os oes gennych unrhyw amheuon am p'un a ddylech boeni ai peidio, gallwch ffonio un o'r rhifau isod am gymorth.

Beth ddylwn ei wneud?

- Byddwch yn gysur i'r plentyn. Gwrandewch arno/arni a chymerwch yr hyn y mae'n ei ddweud o ddifrif.
- Byddwch â ffydd yn eich barn os oes gennych unrhyw amheuon.
- Rhannwch eich pryderon â'r heddlu, y tîm gwaith cymdeithasol neu'r NSPCC – maen nhw yno i'ch helpu.
- Parhewch i gynnig cefnogaeth i'r plentyn unwaith i'r awdurdodau ddod ynghlwm wrth yr achos.
- Os yw'n bosibl, cynigwch gymorth i'r rhiant neu'r gofalwr er mwyn helpu i leddfu'r straen gartref.

A oes raid i mi roi fy enw?

Nac oes, nid oes angen i chi roi eich enw. Gall aelodau o'r cyhoedd roi gwybod am eu pryderon yn ddienw. Mae'n fwy cynorthwyol i chi ddweud wrth y gweithwyr cymdeithasol pwy ydych ond gofyn iddynt beidio â rhoi'ch enw i'r teulu - yna gall y gweithiwr ddod yn ôl atoch yn ôl yr angen i wirio'r wybodaeth. Dywedwch wrth yr unigolyn yr ydych yn siarad ag ef/hi os nad ydych am i ni eich ffonio neu ymweld â chi gartref.

Peidiwch

- ag oedi
- â'i adael i rywun arall helpu'r plentyn
- fod ag ofn mynegi eich pryderon

Beth fydd yn digwydd?

Bydd yr unigolyn yr ydych yn siarad ag ef/â hi yn cymryd eich pryderon o ddifrif ac yn cyfeirio eich achos at weithiwr cymdeithasol sydd wedi'i hyfforddi i amddiffyn plant, a fydd yn

cysylltu â chi. Bydd beth bynnag y byddwch yn ei ddweud yn cael ei drin yn gyfrinachol. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gwirio p'un a yw'r teulu eisoes yn wybyddus i'r adran ac yn holi gweithwyr proffesiynol eraill, fel athrawon neu feddygon.

Fel arfer, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â'r rhieni a'r plentyn ac yn trafod y pryderon gyda nhw. Weithiau, bydd yn amlwg nad oes unrhyw beth i boeni amdano ac weithiau gallwn gynnig cymorth i rieni i'w helpu i ddatrys y problemau o fewn yn y teulu. Os bydd y gweithwyr cymdeithasol yn dal i boeni, yna bydd ymchwiliad amddiffyn plant ffurfiol yn dechrau.

Bob amser byddant yn anelu at fod yn sensitif tuag at anghenion diwylliannol ac anghenion eraill plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Gan fod rhaid i'r gwaith hwn fod yn gyfrinachol, ni chewch wybod beth sy'n digwydd fel mae'r ymchwiliad yn mynd yn ei flaen – ond byddwch yn gwybod bod eich craffter wedi bod yn gam cyntaf pwysig mewn amddiffyn y plentyn.

Cysylltiadau pwysig

Os ydych yn poeni am blentyn yn ardal Wrecsam, ffoniwch 01978 292039 a gofynnwch am gael siarad â'r Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd. Os yw'n well gennych, gallwch anfon e-bost at cafat@wrexham.gov.uk. Gallant hefyd roi rhifau ffôn i chi ar gyfer plant sy'n byw mewn awdurdodau cyfagos.

Os oes angen cymorth brys arnoch y tu allan i oriau'r swyddfa gallwch gysylltu â gweithiwr cymdeithasol ar 0845 0533 116.

Os yw'r plentyn mewn perygl ar hyn o bryd ffoniwch 999 a siaradwch â'r heddlu.

Os oes angen cyngor arnoch ond nad ydych am ffonio'r swyddfa leol, mae gan yr NSPCC linell gymorth i oedolion pryderus, sef 0808 800 5000.